

COED CADW
WOODLAND
TRUST

MORE TREES
MORE GOOD
TRWY WYDDDDAW BUDD

Trees for farms in Wales

Coed ar gyfer ffermydd yng Nghymru





The Woodland Trust is the UK's leading charity championing native woods and trees. It has 300,000 members and supporters. The Trust has three key aims:

- i) to enable the creation of more native woods and places rich in trees;
- ii) to protect native woods, trees and their wildlife for the future and;
- iii) to inspire everyone to enjoy and value woods and trees.

Established in 1972, the Woodland Trust now has over 1,000 sites in its care covering approximately 20,000 hectares (50,000 acres). These include over 100 sites in Wales, with a total area of 1,580 hectares (3,900 acres). It offers free public access to nearly all of its sites. The Trust's Welsh language name, "Coed Cadw", is an old Welsh term, used in medieval laws to describe protected or preserved woodland.

© Copyright the Woodland Trust 2011

Cover Photograph:

Welsh farmed landscape with some woodland creation in the foreground

The Woodland Trust logo is a registered trademark.
Registered Office: The Woodland Trust, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL
The Woodland Trust is a registered charity nos. 294344 and SC038885.
A non-profit making company limited by guarantee.
Registered in England no. 1982873

Coed Cadw yw'r brif elusen yn y DU sy'n siarad dros goedlannau a choed. Mae ganddo 300,000 o aelodau. Mae gan y mudiad dri amcan allweddol, sef:

- i) galluogi creu rhagor o goedlannau brodorol a lleoedd sy'n frith o goed,
- ii) diogelu goedlannau a choed brodorol a'r bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â nhw at y dyfodol a
- iii) ysbrydoli pawb i fwynhau a gwerthfawrogi goedlannau a choed.

Sefydlwyd Coed Cadw (neu'r Ymddiriedolaeth Coedlannau gynt) yn 1972. Erbyn hyn mae'n gofalu am dros 1,000 o safleoedd, gydag arwynebedd o 20,000 hectar (50,000 erw). Mae'r rhain yn cynnwys dros 100 o safleoedd yng Nghymru, gydag arwynebedd o 1,580 hectar (3,900 erw). Mae'r safleoedd hyn bron i gyd ar agor i'r cyhoedd. Hen derm Cymraeg yw enw Cymraeg y mudiad, "coed cadw" a ddefnyddiwyd yng nghyfreithiau'r Oesoedd Canol i gyfeirio at goedlannau a warchodwyd yn arbennig.

© Hawlfraint Coed Cadw 2011

Cover Photograph:

Tirwedd sy'n cael ei ffermio yng Nghymru gyda rhywfaint o goetir wedi'i greu yn y tu blaen

Mae logo Coed Cadw yn farc masnachu cofrestredig.
Swyddfa gofrestrdig: The Woodland Trust (Coed Cadw), Grantham, Lincolnshire NG31 6LL E. lusen gofrestrdig yw Coed Cadw (Woodland Trust), rhifoedd 294344 a SC038885. Cwmni di-elw sy'n gyfyngedig trwy warant. Wedi'i gofrestru yn Lloegr rhif 1982873.



The Countryside Council for Wales has generously helped fund the publication of this brochure through its strategic partnership with Coed Cadw.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyfrannau at gost y llyfryn hwn, a hynny fel rhan o'i bartneriaeth strategol gyda Coed Cadw.

Foreword



By John Lloyd Jones

“A good farmer doesn’t plant trees or keep horses”. So I was told with considerable conviction by an experienced and elderly farmer when I first took over my farm. Does that conventional wisdom still hold true?

Well, a horse’s grazing pattern makes good grassland management difficult, but why shouldn’t a farmer consider planting trees? After all the separation of farming and forestry is a recent aberration of the past century. Historically farming and woodlands were integrated elements of land management. Is it time that we returned to that concept?

The policy framework is certainly going in that direction with the recent significant rise in planting, annual maintenance payments and capital cost to cover fencing etc and crucially the harmonisation of the creation of new woodlands within the Single Farm Payment System.

But is there a bigger driver? Within the space of twenty five or so years we have gone from the concept of surplus land to the realisation that we need our land and natural resources to work much harder in order to cope with rising demand due to population growth and the challenge of climate change.

Making land work much harder will not just mean an increase in agricultural production, it also means the maintenance of eco-systems; clean air, water, soil fertility and stability on which production relies. Trees have a pivotal role to play in that process.

Having planted a couple of small woodlands and done a significant amount of hedgerow restoration under agri-environment schemes over the last twenty years mainly for landscape and bio-diversity reasons: I am now looking at the bigger picture.

Where on my land can I plant trees without compromising my agricultural productive capacity, wouldn’t some deep gullies, steep sides, difficult field corners or even some pieces of acid grassland contribute more to my farm if they were planted rather than maintained in their present condition? Though each farmer may have a different answer to this situation depending on our own personal circumstances and preferences; we should all be asking the same question.

Still have my reservation about keeping horses though!

Rhagair

Gan John Lloyd Jones

“Dyw ffermwr da ddim yn plannu coed neu’n cadw ceffylau”. Felly y dywedwyd wrthyf gyda chryn argyhoeddiad gan ffermwr oedrannus, profiadol pan gymerais fy

fferm drosodd gyntaf. A ydi’r doethineb confensiynol yna’n dal i fod yn wir?

Wel, mae patrwm pori ceffyl yn gwneud rheoli tir glas yn anodd, ond paham na ddylai ffermwr ystyried plannu coed? Wedi’r cyfan cyfeiliornad diweddar yn perthyn i’r ganrif ddiwethaf ydi gwahanu ffermio a choedwigaeth. Yn hanesyddol roedd ffermio a choetiroedd yn elfennau cyfunol o reoli tir. A ydi hi’n bryd inni ddychwelyd at y cysyniad hwnnw?

Mae’r fframwaith polisi yn sicr yn mynd i’r cyfeiriad hwnnw gyda’r cynnydd sylweddol diweddar mewn plannu, taliadau cynnal blynyddol a chost cyfalaf i gyflenwi ffensys ayb ac, yn hollbwysig, gydgordio creu coetiroedd newydd o fewn System y Taliad Sengl.

Ond a oes yna rywbeth mwy yn gyrru pethau? O fewn ysbaid o ryw bum mlynedd ar hugain rydym wedi mynd o’r cysyniad o ormodedd tir i’r sylweddoliad ein bod ag angen i’n tir a’n hadnoddau naturiol weithio’n llawer caletach er mwyn cwrdd â’r galw cynyddol oherwydd twf poblogaeth a her y newid yn yr hinsawdd.

Bydd gwneud i dir weithio’n llawer caletach nid yn unig yn golygu cynnydd mewn cynhyrchu amaethyddol, mae’n golygu cynnal ecosystemau hefyd:- aer glân, dŵr, ffrwythlondeb a sefydlogrwydd pridd, ar ba rai y mae cynhyrchu’n dibynnu. Mae gan goed rôl ganolog i’w chwarae yn y broses honno.

Wedi imi blannu cwpl o goedlannau bychain a gwneud cryn dipyn o adfer gwrychoedd dan gynlluniau amaeth-amgylchedd dros yr ugain mlynedd ddiwethaf am resymau tirwedd a bioamrywiaeth yn bennaf: rwyf yn awr yn edrych ar y darlun mwy.

Ble ar fy nhir y gallaf blannu coed heb beryglu fy ngallu cynhyrchu amaethyddol, oni fyddai rhai ceunentydd dwfn, ochrau serth, corneli caeau anodd neu hyd yn oed ryw ddarnau o dir glas asidig yn cyfrannu mwy at fy fferm petaent yn cael eu plannu yn hytrach na chael eu cynnal yn eu cyflwr presennol? Er y gall pob ffermwr fod â gwahanol ateb i’r sefyllfa yma, yn dibynnu ar ein hamgylchiadau a’n hoffterau personol, dylem i gyd fod yn gofyn yr un cwestiwn.

Dal i fod ag amheuan ynghylch cadw ceffylau er hynny!



Mae creu tirwedd sy'n doreithiog o goed brodorol yn anhepgor i helpu amaethyddiaeth i ymaddasu i hinsawdd sy'n newid.

Creating a landscape rich in native trees is vital to help farming adapt to a changing climate.

Why plant trees?

For centuries native trees and woods have provided services and benefits to farmers and society; shelter and shade, woodfuel and timber, managing and maintaining high quality water supplies, regulating flood flows and providing habitat for wildlife and game and creating an attractive landscape for farm tourism. Creating and maintaining a landscape rich in native trees and woods is vital to help farming in Wales meet current challenges; in particular adapting to the impacts of a changing climate whilst supporting productive use of the land.

Throughout Wales winter rainfall is projected to increase, with greater frequency of severe rainstorms and gales. Lower summer rainfall is expected with higher temperatures. The change in weather patterns, together with more extreme weather events, means the countryside must be well adapted to support productive farming and protect the environment. Trees can help manage these risks, reduce costs and diversify sources of income.

Trees and woods have the advantage of being able to deliver many benefits at the same time. For instance, trees along watercourses can help improve water quality while supporting pollinating insects and providing a source of woodfuel.

Selecting the right site for planting is important. Often those areas which seem least suited to farming and might provide opportunities for tree planting are important as open habitats in their own right. The Woodland Trust (Coed Cadw) can provide support on site selection, planting and grant support or direct you to other sources of advice.

Paham plannu coed?

Ers canrifoedd mae coed a choedlannau brodorol wedi cyflenwi gwasanaethau a manteision i ffermwyr ac i'r gymdeithas; lloches a chysgod, tanwydd coed a phren, rheoli a chynnal cyflenwadau dŵr o ansawdd uchel, rheoli llif y dŵr yn ystod cyfnodau gwlyb iawn a darparu cynefin i fywyd gwylt ac i anifeiliaid hela. Mae creu a chynnal tirwedd sy'n doreithiog o goed a choedlannau brodorol yn anhepgor i helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i ateb yr heriau diweddaraf; yn arbennig ymaddasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid wrth gynnal defnydd cynhyrchiol o'r tir.

Ledled Cymru rhagwelir y bydd glawiad y gaeaf yn cynyddu, gyda stormydd glaw a chorwyntoedd difrifol yn digwydd yn amlach. Disgwylir llai o lawiad yn yr haf gyda thymheredd uwch. Mae'r newid ym mhatrymau'r tywydd, ynghyd â digwyddiadau tywydd mwy eithafol, yn golygu bod rhaid i gefn gwlad fod yn gyfaddas i gynnal ffermio cynhyrchiol ac i ddiogelu'r amgylchedd. Fe all coed helpu rheoli'r peryglon hyn, lleihau costau a sicrhau ffynonellau eraill o incwm.

Mae gan goed a choedlannau y fantais o fod yn gallu cyflenwi llawer o fanteision ar yr un pryd. Er enghraifft, gall coed ar hyd cyrsiau dŵr helpu i wella ansawdd y dŵr tra'u bod yn cynnal pryfetach sy'n peillio ac yn darparu ffynhonnell tanwydd coed.

Mae dewis y safle iawn i blannu yn bwysig. Yn aml mae'r llecynnau hynny sy'n ymddangos yn lleiaf addas i ffermio ac a allai ddarparu cyfleoedd i blannu coed yn bwysig fel cynefinoedd agored yn eu rhinwedd eu hunain. Mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn gallu darparu cymorth gyda dewis safle, plannu a chymorth grant neu'ch cyfeirio at ffynonellau cyngor eraill.

“Mae creu a chynnal tirwedd sy'n doreithiog o goed a choedlannau brodorol yn anhepgor i helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i ateb yr heriau diweddaraf...”

“Creating and maintaining a landscape rich in native trees and woods is vital to help farming in Wales meet current challenges...”



Mae plannu coed ar derfynau caeau, mewn gwrychoedd ac mewn caeau yn darparu cysgod i anifeiliaid mewn tywydd poeth, gan leihau pwysau gwres a gwella lles anifeiliaid.

Planting trees on field boundaries, in hedgerows and in fields provides shelter for animals in hot weather, reducing heat stress and improving animal welfare.



Mae plannu coetir o amgylch adeiladau fferm yn gostwng cyflymder y gwynt ac yn lleihau costau gwresogi. Mae lloches yn gwella'r amodau gweithio o amgylch buarth y fferm hefyd.

Planting woodland around farm buildings lowers the wind speed and reduces heating costs. Shelter also improves the working conditions around the farm yard.

Shade

Rising summer temperatures will increase heat stress to livestock. Increased heat stress can affect milk yield and herd fertility of dairy animals, and affect the feed efficiency and general welfare of other livestock. Planting native trees, or allowing them to develop in hedgerows, provides important shade for livestock and reduces air temperature.

Using deciduous trees for shade gives greatest shading effect during the summer months, but allows available solar gain to benefit buildings and livestock during the winter.

Cysgod

Bydd tymheredd haf sy'n codi yn dwysáu pwysau gwres ar dda byw. Gall cynnydd ym mhwysau gwres effeithio ar gynnyrch llaeth a ffrwythlondeb buches anifeiliaid godro, ac effeithio ar effeithlonrwydd porthiant a lles cyffredinol mathau eraill o dda byw. Mae plannu coed brodorol, neu ganiatáu iddynt ddatblygu mewn gwrychoedd, yn darparu cysgod pwysig i dda byw ac yn gostwng tymheredd yr aer.

Defnyddio coed collddail ar gyfer cysgod sy'n rhoi'r effaith gysgodi fwyaf yn ystod misoedd yr haf, ond yn caniatáu i gynnydd gwres yr haul sydd ar gael fod o fudd i adeiladau a da byw yn ystod y gaeaf.

“Mae plannu coed brodorol, neu ganiatáu iddynt ddatblygu mewn gwrychoedd, yn darparu cysgod pwysig i dda byw ac yn gostwng tymheredd yr aer...”

“Planting native trees, or allowing them to develop in hedgerows, provides important shade for livestock and reduces air temperature...”

Shelter

Well designed shelter around the farm can reduce heating costs by 10-40 per cent and lower farm CO₂ emissions. It can also capture some of the ammonia emissions from livestock housing.

Shelter belts of trees can have a positive impact on pasture growth by increasing water infiltration and reducing evapotranspiration loss. Shelter is an important factor in reducing exposure and improving survival in lambs. Shelter also increases the feed efficiency of livestock through reduction in the chill factor.

More storms create greater need for crop shelter to reduce damage, water loss and to encourage crop pollination. Crop yields can increase as a result of use of windbreaks.

Lloches

Gall lloches wedi'i chynllunio'n dda o amgylch y ffermydd leihau costau gwresogi o 10-40 y cant a gostwng allyriadau CO₂ fferm. Fe all ddal allyriannau o ammonïau o ysguboriau da byw, hefyd.

Gall lleiniau cysgodi o goed gael effaith gadarnhaol ar dwf porfa trwy wella ymdreiddiad dŵr a lleihau colled anwedd-drydarthiad. Mae lloches yn ffactor pwysig wrth leihau oerfel a gwella goroesiad mewn ŵyn. Mae lloches hefyd yn gwella effeithlonrwydd bwyd da byw trwy ostyngiad yn y ffactor oerfel.

Mae mwy o stormydd yn creu mwy o angen i gysgodi cnydau i leihau difrod, colled dŵr ac i annog peilliad cnydau. Gall cynnyrch cnydau gynyddu o ganlyniad i ddefnyddio atalfeydd gwynt.

“Mae lloches yn ffactor pwysig wrth leihau oerfel a gwella goroesiad mewn ŵyn...”

“Shelter is an important factor in reducing exposure and improving survival in lambs...”

Case study – Trees for shelter, fuel and wildlife

Somerton Farm, Castle Martin, Pembrokeshire

Holly Harris and her husband run the 22 ha Somerton Farm in Pembrokeshire. They have 23 Dexter suckler cattle, a small flock of chickens and grow their own vegetables. Twenty years ago Mrs Harris planted 2,000 native trees in a two hectare field of limited agricultural value.

Now that field has become a wood that supplies the farmhouse's two wood burning stoves, saving hundreds of pounds a year. It also shelters the farmhouse and the vegetable plot from the fierce coastal winds and provides a sheltered spot for the chickens.

The young woodland has a number of other uses, "I have put stock in it for short periods when I've needed to", says Mrs Harris. "They love it and they do surprisingly little damage." Wildlife is one of Mrs Harris' passions; the new woodland has become a haven for nature.

"It's also a great place for walking dogs. It's where we take folks who come to visit the farm. We're very lucky to have it."

Mrs Harris recently acquired a small area of additional land and is keen to find out more about the new Glastir Woodland Creation grants, which offer up to £9,000 per hectare for tree planting. "I'm interested in planting trees that will produce fruits and berries and also quick-growing trees that we can coppice, that we will be able to make use of."

"I'm increasingly aware that, because of climate change, shade and shelter is going to become more important on farms. My message to other farmers and landowners would be 'invest in tree planting now'. When we planted our wood, we never realised how much it would mean to us. It's become such an asset in so many ways. There are lots of problems in the world, and the answer to very many of them is: 'plant more trees'."

"People have come to see our wood and have said to us: 'I wish I'd planted trees years ago, so they'd be like this now'. Hopefully we'll still be around to see this wood when it's 40 years old."



Astudiaeth achos – Coed ar gyfer lloches, tanwydd a bywyd gwyllt

Somerton Farm, Castell Martin, Sir Benfro

Mae Holly Harris a'i gŵr yn rhedeg fferm 22 hectar, Somerton Farm yn Sir Benfro. Mae ganddynt 23 o wartheg sugno Dexter, haid fechan o ieir ac maent yn tyfu eu llysiau eu hunain. Ugain mlynedd yn ôl plannodd Mrs Harris 2,000 o goed brodorol mewn cae dau hectar prin ei werth yn amaethyddol.

Bellach mae'r cae hwnnw wedi dod yn goedlan sy'n cyflenwi dwy stôf llosgi coed y ffermdy, gan arbed cannoedd o bunnoedd y flwyddyn. Mae'n cysgodi'r ffermdy a'r gwely llysiau rhag gwyntoedd egr yr arfordir hefyd ac yn darparu llecyn cysgodol i'r ieir.

Mae sawl defnydd arall i'r goedlan ifanc, "Rwyf wedi rhoi stoc yno am gyfnodau byr pan oedd angen imi wneud", medd Mrs Harris. "Maen nhw wrth eu bodd yno ac mae'n syndod gyn lleied o ddifrod maen nhw'n ei wneud." Mae bywyd gwyllt yn un o'r pethau y mae Mrs Harris yn frwd yn ei gylch; mae'r goedlan newydd wedi dod yn noddfa i natur.

"Mae'n lle gwych i fynd â chŵn am dro hefyd. Dyma ble 'da ni'n mynd â phobl sy'n dod i ymweld â'r fferm. Rydym yn ffodus iawn ohono."

Prynodd Mrs Harris ddarn bach o dir ychwanegol yn ddiweddar ac mae'n awyddus i gael gwybod mwy am grantiau Creu Coetir newydd Glastir, sy'n cynnig hyd at £9,000 yr hectar am blannu coed. "Mae gen i ddi-ddordeb mewn plannu coed fydd yn tyfu ffrwythau ac aeron a phrysglwyni sy'n tyfu'n gyflwm hefyd, coed y byddwn yn gallu gwneud defnydd ohonynt."

"Rwyf yn fwy a mwy ymwybodol, oherwydd y newid yn yr hinsawdd, fod cysgod a lloches yn mynd i ddod yn fwy pwysig ar ffermydd. Fy neges i ffermyr a thirfeddianwyr eraill fyddai 'buddsodwch mewn plannu coed yn awr'. Pan wnaethom ni blannu ein coedlan, 'wnaethom ni erioed sylweddoli cymaint y byddai'n ei olygu inni. Mae wedi dod y fath gaffaeliad mewn cymaint o ffyrdd. Mae yna lawer o broblemau yn y byd, a'r ateb i lawer iawn ohonynt nhw ydy 'plannu mwy o goed'."

"Mae pobl wedi dod i weld ein coedlan ac wedi dweud wrthym: 'Byddai'n dda gennyf fod wedi plannu coed flynyddoedd yn ôl, fel y bydden nhw fel hyn yn awr'. Gobeithio y byddwn ni dal o gwmpas i weld y goedlan 'ma pan fydd yn 40 mlwydd oed"

Native deciduous trees are ideal for windbreaks, with enough porosity to slow the wind without creating turbulence. Windbreaks increase the abundance of pollinating insects providing shelter and a food source, particularly when combined with hedgerows.

Mae coed collddail brodorol yn ddelfrydol ar gyfer atalfeydd gwynt, gyda digon o fandylledd i arafu'r gwynt heb greu cynnwrf. Mae atalfeydd gwynt yn cynyddu helaethrwydd pryfetach sy'n peillio gan ddarparu lloches a ffynhonnell bwyd, yn arbennig pan fyddant wedi'u cyfuno â gwrychoedd.

Woodfuel and mitigating GHG emission

Farming accounts for around 10 per cent of greenhouse gas (GHG) emissions in Wales. The planting of trees on farms, for whatever purpose, will have some benefit in capturing atmospheric carbon. In addition shelter for housing and buildings can reduce energy consumption and GHG emissions.

Woodfuel as a renewable energy source displaces fossil fuels and reduces the carbon footprint of the farm.

Lliniaru allyriadau nwy tŷ gwydr (GHG)

Mae ffermio i gyfrif am tua 10 y cant o allyriadau nwy tŷ gwydr (GHG) yng Nghymru. Bydd plannu coed ar ffermydd, at ba bynnag ddiben, yn gwneud rhywfaint o les wrth ddal carbon atmosfferig. Yn ogystal gall cysgod ar gyfer tai ac adeiladau leihau defnydd ynni ac allyriadau nwy tŷ gwydr (GHG).

Mae tanwydd coed fel ynni adnewyddadwy yn disodli tanwydd ffosil ac yn lleihau ôl troed carbon y fferm.



“Bydd plannu coed ar ffermydd, at ba bynnag ddiben, yn gwneud rhywfaint o les wrth ddal carbon atmosfferig...”

“The planting of trees on farms, for whatever purpose, will have some benefit in capturing atmospheric carbon...”

Mae plannu coed brodorol ar gyfer tanwydd coed yn lleihau gwir allyriadau nwy tŷ gwydr o'r fferm, yn ogystal â sicrhau rhan o anghenion ynni'r fferm ar adeg pan fo prisiau ynni'n codi. Gall tanwydd coed gael ei dyfu mewn manau sy'n anodd eu ffermio neu gellir ei gynaeafu o goed a blannwyd at ddibenion eraill, er enghraifft er darparu cysgod. Gall tanwydd coed gael ei werthu oddi ar y fferm hefyd i greu ffynhonnell incwm ychwanegol.

Planting native trees for woodfuel reduces net greenhouse gas emissions from the farm, as well as securing part of the farms energy needs at a time when energy prices are increasing. Woodfuel can be grown in areas which are difficult to farm or can be harvested from trees planted for other purposes, for instance providing shelter. Woodfuel can also be sold off the farm to create an additional source of income.

Case study – Fuel and carbon

Upper Nant-y-Felin, Bwlch near Brecon

An 80 ha upland sheep and beef farm in Bwlch near Brecon, Wales, farmed by one of Wales' most enterprising young farmers, 27-year-old Matthew Vaughan. It has been fully organic for three years and has 500 ewes and 20 suckler cows.

Keen to make the fullest use of the farm's steep, bracken covered slopes, he has planted around 3,000 mixed hard and softwoods, restored 6,000m of hedgerows and created two new orchards, through Tir Gofal.

The farm's trees already provide significant financial benefits. Matthew's three wood burning stoves fed exclusively from his own wood provide heat for the farmhouse. This saves hundreds of pounds a year. Matthew also produces his own heatherings, the hooks of hazel used in hedge-laying.

"I reckon the carbon footprint is going to become increasingly important in the future", he says. "By planting trees I can create a more diverse habitat, reduce the carbon footprint and in the long term, reduce the farm's dependence on materials that need to be bought in. It takes time for trees to establish themselves, and that's all the more reason to start now".

"The Glastir Woodland Creation Grants, of up to £9,000 per ha over 15 years, plus £3.15 per metre of new fencing, look like a great opportunity for farmers. I'm certainly keen to plant up some of the very steep, bracken-covered slopes at Upper Nant-y-Felin, to make the best possible use of land which has a limited use for agriculture."



Gall coed a gynaeafir o leiniau cysgodi neu goetir gael eu naddu ar gyfer gwely anifeiliaid yn lle gwellt. Canfu Hybu Cig Cymru (HCC) fod naddion pren a ddefnyddiwyd dros dair blynedd yn costio £8 y fowch (a gedwir dan do am 16 wythnos y flwyddyn), yn erbyn gwellt am £23 y pen.

Around 3 ha of woodland can heat the average farmhouse. Larger areas of woodland could feed a boiler to heat other farm buildings. That woodland does not need to be in one block, but it does need to be accessible. In each case use of native tree species has the benefit of producing good quality firewood and supporting biodiversity, important to create a diverse and resilient farming system.

Astudiaeth achos – Tanwydd a charbon

Upper Nant-y-Felin, Bwlch ger Aberhonddu

Fferm ddefaid a biff ucheldir 80 hectar ym Mwlch ger Aberhonddu, Cymru, yn cael ei ffermio gan un o ffermwyr ifanc mwyaf blaengar Cymru, Matthew Vaughan sy'n 27 mlwydd oed. Bu'n gyfan gwbl organig am dair blynedd ac mae yno 500 o famogiaid ac 20 o fuchod sugno.



Yn awyddus i wneud y defnydd llawnaf o lechweddau serth, rhedynog y fferm mae Matthew wedi plannu tua 3,000 o goed pren caled a phren meddal cymysg, wedi adfer 6,000m o wrychoedd ac wedi creu dwy berllan newydd, trwy Tir Gofal.

Mae coed y fferm yn darparu manteision ariannol sylweddol yn barod: mae tair stôf llosgi coed Matthew sy'n cael eu bwydo o'i goed ei hun a dim arall yn darparu gwres ar gyfer y ffermdy. Mae hyn yn arbed cannoedd o bunnoedd y flwyddyn. Mae Matthew hefyd yn cynhyrchu ei fachau cyll ei hun, sy'n cael eu defnyddio wrth blygu gwrychoedd.

"Mi dybiaf fod yr ôl troed carbon yn mynd i ddod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol", meddai. "Trwy blannu coed gallaf greu cynefin mwy amrywiol, lleihau'r ôl troed carbon ac yn y tymor hir, leihau dibyniaeth y fferm ar ddefnyddiau y mae angen eu prynu i mewn. Mae'n cymryd amser i goed sefydlu eu hunain, ac mae hynny'n fwy fyth o reswm dros ddechrau'n awr".

"Mae Grantiau Creu Coetir Glastir, o hyd at £9,000 yr hectar dros 15 mlynedd, gyda £3.15 y metr o ffensys newydd, yn edrych yn gyfle gwych i ffermwyr. Rwyf i'n sicr yn awyddus i blannu rhai o'r llethrau rhedynog, serth iawn yn Upper Nant-y-Felin, i wneud y defnydd gorau posib o dir sy'n gyffwrng ei ddefnydd ar gyfer amaethyddiaeth".

Wood harvested from shelter belts or woodland can be chipped for animal bedding as a substitute for straw. Hybu Cig Cymru (HCC) found that woodchips used over three years cost £8 per cow (housed for 16 weeks a year), against straw at £23 per head. The woodchip also makes an excellent soil improver.

Gall tua 3 hectar o goetir wresogi ffermdy cyffredin. Gallai darnau mwy o goetir fwydo boeler i gynhesu adeiladau fferm eraill. Nid oes rhaid i'r coetir yma fod mewn un darn, ond mae'n rhaid iddo fod yn weddol hawdd ei gyrraidd. Ym mhob achos mae i ddefnydd rhywogaethau coed brodorol y fantais o gynnal bioamrywiaeth, sy'n bwysig er mwyn creu system ffermio amrywiol a gwydn.

Soil erosion and pollution control

Buffer strips of trees along watercourses and contour planting of trees and hedges increases water infiltration into the soil, reduces sedimentation and runoff of manure and fertiliser following heavy rainfall. When combined with other measures this helps improve water quality and can reduce the risk of flooding.

Trees provide dappled shade to watercourses and lower water temperatures and can be associated with improved oxygen levels to the benefit of fish and other wildlife.

Erydiad pridd a rheoli llygredd

Mae lleiniau clustog o goed ar hyd cyrsiau dŵr a phlannu coed a gwrychoedd yn gyfuchlinol yn gwella ymdreiddiad dŵr i'r pridd, yn lleihau gwaddodiad a goferion tail a gwrtaith ar ôl glawriad trwm. Pan y'i cyfunir â mesurau eraill mae hyn yn helpu i wella ansawdd dŵr a gall leihau'r perygl o lifogydd.

Mae coed yn darparu cysgod brith i gyrsiau dŵr ac yn gostwng tymheredd dŵr a gallant fod yn gysylltiedig â gwell lefelau ocsigen er lles pysgod a mathau eraill o fywyd gwylt.

“Pan y'i cyfunir â mesurau eraill mae hyn yn helpu i wella ansawdd dŵr a gall leihau'r perygl o lifogydd...”

“When combined with other measures this helps improve water quality and can reduce the risk of flooding...”



Gall plannu coed brodorol ar hyd cyrsiau dŵr fod yn rhan o fesurau ehangach i leihau gwaddodiad a goferion tail a gwrtaith. Gellir ei ddefnyddio hefyd, gyda ffensys, i gyfyngu mynediad defaid i leoedd gwlyb sy'n debygol o gynyddu achosion o glwy'r traed. Mae darparu cymysgedd o blannu wrth ochr nant ac ardaloedd agored o fudd i fywyd gwylt a dŵr.

Planting native trees along watercourses can be part of wider measures to reduce sedimentation and runoff of manure and fertilisers. It can also be used, with fencing, to limit the access of sheep to wet areas likely to increase the incidence of foot rot. Providing a mix of stream side planting and open areas benefits wildlife and water.

“...wedi'i leoli'n dda gynyddu potensial saethu adar hela...”

“...woodland can increase the potential of game shooting...”

Improving sporting opportunities

Well sited native woodland can increase the potential of game shooting on farms, particularly pheasants. Native woodland with well designed rides provides shelter and a valuable food source for pheasants. Development of the woodland edge is particularly important and can be achieved by expanding existing woodland.

Gwella cyfleoedd helwriaeth

Gall coetir brodorol wedi'i leoli'n dda gynyddu potensial saethu adar hela ar ffermydd, yn arbennig ffesantod. Mae coetir brodorol gyda rhodfeydd wedi'u cynllunio'n dda yn cynnig lloches a ffynhonnell fwyd werthfawr i ffesantod. Mae datblygu ymyl y coetir yn arbennig o bwysig a gellir cyflawni hyn drwy ehangu'r coetir presennol.

Case study – Timber and farm use

Hendre Llwyn-y-main, Llangernyw, North Wales

Robin Crossley, has a successful sheep farm of around 162 ha. He planted 10,000 trees in spring 2009, most native trees like blackthorn and hawthorn, hazel, oak, ash, birch and alder.

Shooting is an important part of the farm business and the trees play a crucial role in providing cover. But it will not just be pheasants that will be found there. Robin is delighted that they will also provide a habitat for wild birds: chaffinches, wagtails, wrens, robins and thrushes to name but a few.

Alongside the native trees, Robin has planted 5000 Christmas trees, as a cash crop.

Most of the native woodland planted is made up of field corners and narrow belts. “I see it as a legacy for the future”, he says. “People who come down the road from Llansannan could see nothing 30 years ago. Now they see a wooded landscape, that changes throughout the year.”

Timber also forms part of the farm business. An established 3 ha wood on the farm has good straight trees. These can be felled and milled less than a mile away.

“We used some of our own timber to build a new oak staircase on the farm,” says Robin. “It would have cost over £2,000 to buy the wood. We used our own and it looks great.”

Their farmhouse has three wood burning stoves, and the tops of the trees felled for lumber are more than enough to provide all its heating needs.

“My feeling is that if Welsh farmers are given half decent incentives to create and manage their woodlands, using Glastir money, they'll respond,” Robin concludes.



Robin Crossley a'i fab Rennie
Robin Crossley with his son Rennie

Astudiaeth achos – Pren a'i ddefnydd ar y fferm

Hendre Llwyn-y-maen, Llangernyw, Gogledd Cymru

Mae gan Robin Crossley fferm ddefaid lwyddiannus sy'n tua 162 hectar o faint. Plannodd 10,000 o goed yng ngwanwyn 2009, y rhan fwyaf yn goed brodorol fel drain duon a drain gwynion, cyll, derw, ynn, bedw a gwern.

Mae saethu'n rhan bwysig o fusnes y fferm ac mae'r coed yn chwarae rhan dyngedfennol wrth ddarparu cyfar. Ond nid ffesantod yn unig fydd i'w cael yno. Mae Robin wrth ei fodd y byddant yn darparu cynefin ar gyfer adar gwyllt hefyd: y ji-binc, siglen, dryw, robin goch a'r fronfraith i enwi ond ychydig.

Yn ymyl y coed brodorol, mae Robin wedi plannu 5000 o goed Nadolig, fel cnwd gwerthu.

Mae'r rhan fwyaf o'r coetir brodorol a blannwyd wedi'i ffurfio o gorneli caeau a lleiniau cul. “Rwyf yn ei weld fel cymynrodd i'r dyfodol”, meddai. “Ni allai pobl oedd yn dod i lawr y ffordd o Llansannan weld dim 30 mlynedd yn ôl. Rwan maen nhw'n gweld tirwedd goedig, sy'n newid trwy'r flwyddyn.”

Mae pren yn ffurfio rhan o fusnes y fferm hefyd. Mae coedlan 3 hectar sefydlog ar y fferm â choed syth da. Gall y rhain gael eu torri a'u melino llai na milltir i ffwrdd.

“Bu inni ddefnyddio rhywfaint o'n coed ein hunain i adeiladu grisiau derw newydd ar y fferm,” medd Robin. “Byddai wedi costio dros £2,000 i brynu'r pren. Fe wnaethom ddefnyddio ein pren ein hunain ac mae'n edrych yn wych.”

Mae gan y ffermdy dair stôf sy'n llosgi coed, ac mae brigau'r coed a dorri ar gyfer coed defnydd yn fwy na digon i ddarparu ei holl anghenion gwresogi.

“Rwy'n teimlo os caiff ffermwyr Cymru gymhellion hanner boddhaol i greu a rheoli eu coetiroedd, gan ddefnyddio arian Glastir, y byddan nhw'n ymateb,” diwedodd Robin.



Gall pren gael ei ddefnyddio ar y fferm neu'i werthu i amrywiaethu incwm fferm. Timber can be used on the farm or sold to diversify farm income.

Timber

Native woodland can produce timber for use on the farm or to diversify farm income. The first harvest of timber from new woodland is likely to be at around 15-20 years. Small diameter timber of species such as oak and sweet chestnut can be used for fencing or sold into bulk markets, whilst larger timber might be used for farm buildings or for sale to sawmills. Where there is a strong local demand, specialist uses such as thatching spars, birch for horse jumps, and willow for basket making, can also generate income.

Pren

Gall coetir brodorol gynhyrchu pren i'w ddefnyddio ar y fferm neu i amrywiaethu incwm fferm. Mae'r cynhaeaf cyntaf o bren o goetir newydd yn debygol o fod ar ôl tua 15-20 mlynedd. Gall pren bach ei dryfesur rhywogaethau megis derw a chastanwydd pêr gael ei ddefnyddio ar gyfer ffensio neu'i werthu i swmp farchnadoedd, tra gallai pren mwy gael ei ddefnyddio ar gyfer adeiladau fferm neu i'w werthu i felinau llifio. Ble mae yna alw lleol cryf, gall defnydd arbenigol megis prisiau toi, bedw ar gyfer neidiau ceffylau, a helyg ar gyfer gwneud cewyll, greu incwm hefyd.

“Mae'r cynhaeaf cyntaf o bren o goetir newydd yn debygol o fod ar ôl tua 15-20 mlynedd...”

“The first harvest of timber from new woodland is likely to be at around 15-20 years...”

Case study – New native woodland on a dairy farm: a winning combination

Penllwyncoch Farm, Waungilwen, Llandysul

Huw Williams runs a 60 ha dairy farm near Llandysul in Carmarthenshire with a herd of 100 dairy cows and 100 followers. He planted 1.5 ha of new native woodland in 2009/10 using a Better Woodlands for Wales (BWW) grant: oak, ash, wild cherry and birch with a mixture of shrubs. He will plant a further 0.53 ha in 2011 using a Glastir Woodland Creation Grant.

Penllwyncoch has about 2 ha of existing woodland which Mr Williams already makes good use of. He has thinned the wood under the grant scheme and made use of the split oak posts which it has produced. He felled an area of larch about two years ago, using the timber for post and rail and fencing posts on his farm. He also uses his own firewood, saving hundreds of pounds per year.

From Mr Williams' perspective, planting trees on the farm is about making it more productive: *"I've planted trees to make the best use of land that would otherwise be of limited value. I made use of grants to fell a number of existing trees. If I'm going to do that, it's important to plant new ones to take their place."*

Mr Williams has found the BWW and the Glastir Woodland Creation Grants easy to access, as the paperwork is largely sorted out by a Woodland Creation Officer funded by the Forestry Commission. *"Alison Wheeler, who worked on my applications, has been really helpful throughout the process"*, he says.

"My advice to other farmers is that planting trees is something that's worth looking at. The grant rates currently available are very good. I'm not suggesting that farmers plant up whole fields or huge areas of land. But almost any farm will have field corners and steep areas that would be suitable, that would have little agricultural value, guaranteed!"

"The new Glastir Woodland Creation Grants are a good deal for farmers as they include additional payments for new fencing. So creating a new strip of woodland doesn't just provide a crop of trees in the future, it also provides a new stock-proof fence."



Astudiaeth achos – Coetir brodorol newydd ar fferm laeth: cyfuniad llwyddiannus

Fferm Penllwyncoch, Waungilwen, Llandysul

Mae Huw Williams yn rhedeg fferm laeth 60 hectar ger Llandysul yn Sir Gaerfyrddin gyda buches o 100 o fuchod godro a 100 o wartheg ifainc. Plannodd 1.5 hectar o goetir brodorol newydd yn 2009/10 gan ddefnyddio grant Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW): derw, ynn, ceirios duon a bedw gyda chymysgedd o lwyni. Bydd yn plannu 0.53 hectar arall yn 2011 gan ddefnyddio Grant Creu Coetir Glastir.

Mae tua 2 hectar o goetir eisoes mewn bod yn Penllwyncoch ac mae Mr Williams yn gwneud defnydd da ohono'n barod. Mae e wedi teneuo'r goedlan dan y cynllun grant ac wedi gwneud defnydd o'r pyst derw hollt y mae wedi'u cynhyrchu. Torrodd ddarn o goed llarwydd tua dwy flynedd yn ôl, gan ddefnyddio'r coed ar gyfer pyst a rheiliau a physt ffensio at ei ddefnydd ei hun. Mae'n defnyddio ei goed tân ei hun hefyd, gan arbed cannoedd o bunnoedd y flwyddyn.

O safbwynt Mr Williams, mae a wnelo plannu coed ar y fferm â'i gwneud yn fwy cynhyrchiol: *"Rwyf wedi plannu coed i wneud y defnydd gorau o dir a fyddai fel arall yn gyfyng ei werth. Fe wnes i ddefnydd o grantiau i dorri nifer o'r coed oedd mewn bod. Os wyf am wneud hynny, mae'n bwysig plannu rhai newydd i gymryd eu lle."*

Mae Mr Williams wedi cael Grantiau BWW a Chreu Coetir Glastir yn hawdd cael gafael arnynt, gan fod y gwaith papur yn cael ei drefnu i raddau helaeth gan Swyddog Creu Coetir sy'n cael ei ariannu gan y Comisiwn Coedwigaeth. *"Bu Alison Wheeler, a fu'n gweithio ar fy ngheisiadau, yn wirioneddol gymwynasgar trwy gydol y broses"*, meddai.

"Fy nghyngor i ffermwyr eraill ydy bod plannu coed yn rhywbeth sy'n werth ei ystyried. Mae'r cyfraddau grant sydd ar gael ar hyn o bryd yn dda iawn. Nid fy mod yn awgrymu bod ffermwyr yn plannu caeau cyfan neu ddarnau enfawr o dir. Ond bydd gan bron unrhyw fferm gorneli caeau a llefydd serth a fyddai'n addas, sydd o fawr ddim gwerth yn amaethyddol, yn sicr!"

"Mae Grantiau Creu Coetir newydd Glastir yn fargen dda i ffermwyr gan eu bod yn cynnwys taliadau ychwanegol ar gyfer ffensys newydd. Felly mae creu rhimyn newydd o goetir nid yn unig yn darparu cnwd o goed yn y dyfodol, mae'n darparu ffens newydd sy'n dal stoc hefyd."

Orchards and other fruit trees

There has been a revival in interest in recent years in orchards in Wales for the production of apples, pears and damsons in particular. Orchards can add to the diversity of farm income and create opportunities for value added products such as apple juice and cider, and provide many of the wildlife benefits of woodland.

Careful site selection and choice of cultivars, plus advice on aftercare and management are necessary for successful fruit production. For further information see our website for details of local orchard projects in Wales.

Perllannau a choed ffrwythau eraill

Yn y blynyddoedd diweddar bu adfywiad yn y diddordeb mewn perllannau yng Nghymru i gynhyrchu afalau, gellyg ac eirin damson yn arbennig. Gall perllannau ychwanegu at amrywiaeth incwm fferm a chreu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchion gwerth ychwanegol megis sudd afal a seidr, gan gynnig llawer o'r un fanteision i fyd natur ag y mae coetir yn ddarparu.

Mae angen dewis y safle a'r cyltifaru yn ofalus, a chael cyngor ar ôl-ofal a rheolaeth i gynhyrchu ffrwythau'n llwyddiannus. I gael mwy o wybodaeth am berllannau cysylltwch â Common Ground <http://www.commonground.org.uk/>



“Yn y blynyddoedd diweddar bu adfywiad yn y diddordeb mewn perllannau yng Nghymru...”

“There has been a revival in interest in recent years in orchards in Wales...”

Gall perllannau amrywiaethu incwm fferm.

Orchards can diversify farm income.

“Mae creu coetir brodorol i glustogi ac ymestyn y cynefin presennol, yn arbennig coetir hynafol, yn helpu bywyd gwylt...”

“Native woodland creation helps wildlife, particularly where it buffers and extends ancient woodland...”



Wildlife Conservation

Native woodland creation helps wildlife, particularly where it buffers and extends ancient woodland.

Newly created woodland has a rapid increase in the abundance of insects between establishing trees, attracting birds, particularly species of open country such as sky larks and linnets. The abundance of insects also attracts foraging bats; up to nine species of bats have been found to use even very early stage woodland.

Whilst many of the specialist plants associated with ancient woodland will not colonise for many years, some other woodland plants, such as lords-and-ladies, herb-Robert, wood avens and honeysuckle are faster to colonise.

Targeted woodland creation may also help the movement of species around the landscape as climate change alters their ranges.

Mae coetir newydd ei greu yn denu pryfetach a'r adar sy'n bwydo arnynt, fel Aderyn y to, yn y llun. Yn y tymor hir mae planhigion coetir yn gallu ymsefydlu.

Newly created woodland attracts insects and the birds, such as the House Sparrow shown, which feed on them. In the longer term woodland plants are able to establish.

Cadwraeth Bywyd Gwylt

Mae creu coetir brodorol i glustogi ac ymestyn y cynefin presennol, yn arbennig coetir hynafol, yn helpu bywyd gwylt.

Mae coetir newydd ei greu yn gweld cynnydd cyflym yn helaethrwydd y pryfetach rhwng y coed sy'n ymsefydlu, gan ddenu adar, yn arbennig rhywogaethau gwlad agored megis ehedyddion a llinosiaid. Mae helaethrwydd pryfetach yn denu ystumod sy'n chwilenna hefyd; cafwyd bod hyd at naw rhywogaeth o ystumod yn defnyddio hyd yn oed coetir cyfnod cynnar iawn.

Er na fydd llawer o'r planhigion arbenigol sy'n gysylltiedig â choetir hynafol yn cytrefu am flynyddoedd lawer, mae rhai planhigion coetir eraill, megis pidyn y gog, y goesgoch, mapgoll a gwyddfifid yn cytrefu'n gyflymach.

Mae creu coetir wedi'i dargedu yn gallu helpu symudiad rhywogaethau o gwmpas y dirwedd hefyd wrth i newid yn yr hinsawdd newid eu cynefinoedd.



Protecting open habitats

Tree planting and woodland creation provides many benefits. However it is important not to plant trees where there are valuable open habitats such as species rich grassland, including wax cap grasslands, and heather moorland. Wetlands of any description should not be drained and planted. If you are in any doubt as to the suitability of land for planting please contact us for advice on where to get further help and information (see Sources of funding and advice).



Diogelu cynefinoedd agored

Mae plannu coed a chreu coetir yn cynnig llawer o fanteision. Er hynny mae'n bwysig peidio â phlannu coed ble mae yna gynefinoedd agored gwerthfawr megis tir glas cyforiog o rywogaethau, yn cynnwys glaswelltir capiau cwyr, a gweundir grub. Ni ddylai gwlyptiroedd o unrhyw fath gael eu draenio a'u plannu. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch addasrwydd tir ar gyfer plannu gofawch eich bod yn cael cyngor da chi (gweler Ffynonellau cyllid a chyngor).

Hygrocybe splendidissima, y cap cwyr ysblennydd
Hygrocybe splendidissima, the splendid waxcap fungus

“Ni ddylai gwlyptiroedd o unrhyw fath gael eu draenio a'u plannu...”

“Wetlands of any description should not be drained and planted...”

Sources of funding and advice

Glastir Woodland Creation provides a planting grant for areas of eligible land over 0.25 ha. This grant package is available to all landowners in Wales and is available separately, and in addition to the Glastir All Wales or Targeted Schemes.

In addition to the planting grant, there is a payment available to farming landowners for income foregone of £300 per hectare per year for 15 years for farmers and a fencing payment of £3.15 per metre for new fencing. The grant can provide up to £9000 per hectare over a 15 year period. Landowners will remain eligible for SPS on land that has been taken out of production through agri-environment schemes providing they claimed SPS in 2008.

Glastir woodland creation officers are available to draw up applications for grant. This service is free of charge.

Some farmers don't want to claim a government grant for tree planting. Coed Cadw can provide free help and support for farmers wishing to plant trees, including a visit from our experienced advisors to check land suitability, assist with design of the wood and help with the paperwork.

Coed Cymru are also able to offer free and impartial advice and training. Coed Cymru promotes co-operation between woodland owners, woodland contractors and timber users.

The Woodland Trust has set up a special web page of links to different websites which offer much more information and advice on the issues discussed in this brochure:

www.woodlandtrust.org.uk/farmingwales

Contact Coed Cadw (the Woodland Trust) and we can advise you on the latest position on funding, and identify the best form of support for your circumstances.

Telephone us on 0845 293 5689 visit our website www.woodlandtrust.org.uk/planttrees or contact us on woodlandcreation@woodlandtrust.org.uk

Ffynonellau cyllid a chyngor

Mae Creu Coetir Glastir yn darparu grant plannu ar gyfer darnau o dir cymwys dros 0.25 hectar. Mae'r pecyn grant hwn ar gael i bob tîrffeddiannwr yng Nghymru, ar wahân i Gynllun Cymru Gyfan o fewn Glastir, a'r cynllun wedi'i dargedu, ac yn ychwanegol i'r rheina.

Yn ychwanegol at y grant plannu, mae yna daliad am incwm a ildwyd o £300 yr hectar y flwyddyn am 15 mlynedd i ffermwyr a thaliad ffensio o £3.15 y metr am ffensys newydd. Gall y grant ddarparu hyd at £9000 yr hectar dros gyfnod o 15 mlynedd. Bydd tîrffeddiannwyr yn aros yn gymwys ar gyfer SPS ar dir y rhoed y gorau i'w ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol ar yr amod eich bod wedi hawlio SPS yn 2008.

Mae swyddogion creu coetir Glastir ar gael i lunio ceisiadau am grant. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim.

Mae rhai ffermwyr nad oes arnynt eisiau hawlio grant gan y llywodraeth am blannu coed. Gall Coed Cadw ddarparu help a chymorth am ddim i ffermwyr sy'n dymuno plannu coed, yn cynnwys ymweliad gan ein hymgynghorwyr profiadol i weld a yw'r tir yn addas, i gynorthwyo gyda chynllunio'r goedlan ac i helpu gyda'r gwaith papur.

Mae Coed Cymru yn gallu cynnig cyngor diduedd a hyfforddiant yn rhad ac am ddim hefyd. Mae Coed Cymru'n hybu cydweithrediad rhwng perchnogion coetir, contractwyr coetir a defnyddwyr coed.

Mae Coed Cadw wedi creu tudalen arbennig o ddolenni at wefannau gwahanol sy'n cynnig llawer mwy o wybodaeth a chyngor am y pynciau sy'n cael eu trafod yn y llyfryn yma: www.coedcadw.org.uk/ffermio

Cysylltwch â Choed Cadw (the Woodland Trust) a gallwn eich cynghori ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid, a chlustnodi'r math gorau o gymorth ar gyfer eich amgylchiadau chi.

Ffoniwch ni ar 0845 293 5689 ewch at ein gwefan www.coedcadw.org.uk/planttrees neu ddanfonwch ebost atom wrth woodlandcreation@woodlandtrust.org.uk



Bydd tymheredd haf sy'n codi yn dwysáu pwysau gwres ar dda byw. Defnyddio coed collddail ar gyfer cysgod sy'n rhoi'r effaith gysgodi fwyaf yn ystod misoedd yr haf, ond yn caniatáu i gynnydd gwres yr haul sydd ar gael fod o fudd i adeiladau a da byw yn ystod y gaeaf.

Rising summer temperatures will increase heat stress to livestock. Using deciduous trees for shade gives greatest shading effect during the summer months, but allows available solar gain to benefit buildings and livestock during the winter.



What do trees have to offer to your farm?

For centuries native trees and woods have provided services and benefits to farmers and society; shelter and shade, woodfuel and timber, managing and maintaining high quality water supplies, regulating flood flows and providing habitat for wildlife and game.

Creating and maintaining a landscape rich in native trees and woods is vital to help farming in Wales meet current challenges; in particular adapting to the impacts of a changing climate whilst supporting productive use of the land.

The Woodland Trust believes that these benefits are more important today than ever before. What's more, the Welsh Assembly Government has set a target of creating 100,000 hectares of new woodland over the next 20 years, to help rural Wales mitigate climate change, and make us more resilient to the results.

More important, it has backed this up with a generous new grant scheme, the Glastir Woodland Creation Grant, which offers farmers up to £9,000 per hectare to plant trees, without loss of single farm payment. Any farmer can take advantage of this; there is no need to be in the Glastir All Wales Scheme, or the targeted element of Glastir.

This brochure is packed with real life case studies of farmers who have recognised how tree planting can help make their farms more productive and profitable, while at the same time improving their value to wildlife.

If you would like **free** advice on any issue involving planting native trees, just telephone the Woodland Trust on 0845 293 5689, visit our website www.woodlandtrust.org.uk/planttrees or email us on woodlandcreation@woodlandtrust.org.uk

Tel: 0845 293 5689
www.woodlandtrust.org.uk/planttrees
Email: woodlandcreation@woodlandtrust.org.uk

The best time to plant trees was 30 years ago. The next best time is now.

Beth sy gan goed i'w gynnig i'ch fferm chi?

Ers canrifoedd mae coed a choedlannau brodorol wedi cyflenwi gwasanaethau a manteision i ffermwyr ac i'r gymdeithas; lloches a chysgod, tanwydd coed a phren, rheoli a chynnal cyflenwadau dwr o ansawdd uchel, rheoli llif y dwr yn ystod cyfnodau gwlyb iawn a darparu cynefin i fywyd gwylt ac i anifeiliaid hela.

Mae creu a chynnal tirwedd sy'n doreithiog o goed a choedlannau brodorol yn anhepgor i helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i ateb yr heriau diweddaraf; yn arbennig ymaddasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid wrth gynnal defnydd cynhyrchiol o'r tir.

Mae Coed Cadw'n credu fod y manteision hyn y bwysicach heddiw nag erioed o'r blaen. At hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targed o greu 100,000 o hectarau o goetir newydd dros yr 20 mlynedd nesaf nesaf, i helpu'r Gymru wledig i wrthsefyll newid yr hinsawdd, ac i'n helpu ni i ymaddasu i'r canlyniadau.

Yn bwysicach, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig grantiau newydd hael, sef grant creu coetir Glastir, sy'n cynnig hyd at £9,000 yr hectar i blannu coed, a hynny heb golli'r taliad fferm sengl. Fe all unrhyw ffermwr fanteisio ar hyn; nid oes angen bod yng nghynllun Cymru Gyfan Glastir, na'r cynllun wedi'i dargedu.

Mae'r llyfryn hwn yn llawn astudiaethau achos o ffermwyr sy wedi cydnabod sut y gall plannu coed helpu gwneud ffermydd yn fwy cynhyrchiol a phroffidiol, wrth wella eu gwerth nhw ar gyfer bywyd gwylt.

Os hoffech chi gyngor **am ddim** ar unrhyw bwnc sy'n gysylltiedig â phlannu coed brodorol, ffoniwch Goed Cadw ar 0845 293 5689, ewch at ein gwefan ni sef www.woodlandtrust.org.uk/planttrees neu danfonwch e-bost atom: woodlandcreation@woodlandtrust.org.uk

Ffôn: 0845 293 5689
www.woodlandtrust.org.uk/planttrees
E-bost: woodlandcreation@woodlandtrust.org.uk

Yr amser gorau i blannu coed oedd 30 mlynedd yn ôl. Yr ail orau ydi nawr.

The Woodland Trust
Campaigning to keep woodland alive

Coed Cadw
Yn cadw coetir yn fyw